

MUSEUMS  
ASSOCIATION

PECYNY CYMORTH GWAREDU  
ATODIAD 4:  
CANLLAWIAU  
YCHWANEGOL AR WAREDU  
AM RESYMAU ARIANNOL

ARTS COUNCIL  
ENGLAND

ARTS COUNCIL  
ENGLAND

 Museums  
Galleries  
Scotland  
Supporting Scotland's Museums

 MUSEUMS  
Wales

 Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Cynnwys

Cydnabyddiaethau 3

Cyflwyniad 3

Gwaredu drwy werthu 3

- Egwyddorion arweiniol
- Rôl y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Cyrff sy'n Asesu ar gyfer Achrediad

Siart llif o'r broses i'w  
dilyn wrth werthu am  
resymau ariannol 5

Cam 1: Asesu a phenderfynu mewn  
egwyddor 6

Cam 2: Cynllunio ac ymchwilio 7

Cam 3: Ymgynghori, cael cyngor a  
phenderfynu'n derfynol 9

Cam 4: Y gwerthiant 11

Cam 5: Ar ôl gwerthu a chadw cofnodion 11



## Cydnabyddiaethau

Mae lluo o bobla sefydliadau wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r canllawiau hyn. Gwnaed llawer o'r gwaith gan yr Athro Janet Ulph o Brifysgol Caerlŷr yn ystod un o leoliadau Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau gyda'r Gymdeithas Amgueddfeydd. Mae'r arweiniad hwn hefyd yn deillio o waith gan CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, un o isadrannau Llywodraeth Cymru; *Museums Galleries Scotland*; Cyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon (NIMC); y Gymdeithas Amgueddfeydd; a Chyngor Celfyddydau Lloegr, yn enwedig Samuel Rowlands, rheolwr Achredu.

## Cyflwyniad

### Pwrpas a sgôp y canllawiau

Mae nifer o ddulliau y gellid eu defnyddio i waredu eitemau o gasgliad amgueddfaol, ac mae canllawiau cyffredinol ynghylch y rhain yn y Pecyn Cymorth Gwaredu. Mae'r canllawiau penodol hyn wedi'u cynhyrchu i ymdrin â gwerthu eitemau o gasgliadau amgueddfaol; y prif ffocws yw darparu canllawiau ar waredu am resymau ariannol.

Dan rai amgylchiadau, mae gwerthu eitem neu eitemau o gasgliad yn dderbyniol. Gellid ystyried bod gwerthu am resymau curadurol yn rhan o'r gwaith o reoli casgliadau mewn modd cyfrifol. Fodd bynnag, ar wahân i amgylchiadau eithriadol iawn, byddai'n annerbyniol i amgueddfa ddethol eitemau i'w gwaredu gyda'r prif fwriad o greu incwm. Oherwydd natur y math hwn o waredu, mae angen trefniadau craffu ychwanegol. Cynhyrchwyd canllawiau ychwanegol hyn i helpu amgueddfeydd wneud penderfyniadau ynghylch ymgymryd â'r dull hwn o weithredu. Mae'n gosod allan broses glir y mae'n rhaid i amgueddfeydd ei chwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y safon Achredu a Chod Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd, a'u bod yn gallu dangos hynny.

### Defnyddio'r canllawiau

Rhaid defnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â'r prif Becyn Cymorth Gwaredu. Dim ond ar ôl darllen y wybodaeth yn y Pecyn Cymorth yn fanwl y dylai amgueddfa ddefnyddio'r canllawiau ychwanegol hyn.

Dylid cwblhau pum cam cyn gwaredu am resymau ariannol. Bydd y canllawiau hyn yn eich tywys drwy gamau'r broses ac yn amlinellu'r hyn y mae angen ei ystyried a'i gwblhau ar bob cam. Os ydych chi'n ansicr o'r broses ar unrhyw adeg, dylech gysylltu naill ai â'r Gymdeithas Amgueddfeydd neu'r Corff sy'n Asesu ar gyfer Achrediad (Corff Asesu) sy'n berthnasol i chi.

Credir bod y ddogfen hon yn cydymffurfio â'r gyfraith. Fodd bynnag, gallai fod yn ddoeth cael cyngor cyfreithiol penodol o dan rai amgylchiadau; dylai amgueddfeydd geisio cyngor cyfreithiol annibynnol pan yn briodol neu'n angenrheidiol.

### Cyd-destun ar gyfer gwaredu

Dylid gwaredu eitemau yng nghyd-destun polisi datblygu casgliadau cymeradwy'r amgueddfa ei hun a dylid bodloni'r gofynion a osodwyd allan yng Nghod Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r safon Achredu. Cyfeirir yn rheolaidd at adrannau perthnasol o'r Cod Moeseg a'r safon Achredu drwy gydol y ddogfen hon. Mae adrannau perthnasol y Cod Moeseg ar dudalen 7 y Pecyn Cymorth Gwaredu ac mae adran berthnasol y safon Achredu ar: [www.artscouncil.org.uk](http://www.artscouncil.org.uk)

## Gwaredu am resymau ariannol

### Egwyddorion Cyffredinol

Fel y nodir yng Nghod Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd, ac fel un o ofynion bod yn amgueddfa Achrededig, mae'n rhaid wrth resymau curadurol cadarn bob amser ar gyfer gwaredu, hyd yn oed os yw'r prif gymhellant yn un ariannol. Dylai amgueddfeydd ddilyn eu polisiau datblygu casgliadau cymeradwy eu hunain.

Mae Cod Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd yn gwahardd gwaredu am resymau ariannol, ac eithrio o dan rai amgylchiadau eithriadol, oherwydd y gallai gwaredu danseilio ffydd y cyhoedd mewn amgueddfeydd a'r egwyddor na ddylid ystyried casgliadau yn bennaf fel asedau sy'n agored i drafodaeth ariannol.

Mae'n bosib y bydd ambell achos eithriadol lle gellir dangos fod gwaredu am resymau ariannol yn gwella'n sylweddol y budd hirdymor i'r cyhoedd a fydd yn deillio o weddill y casgliad. Er mwyn bod yn dderbyniol o safbwynt moesegol, mae'n rhaid i waredu sy'n digwydd am resymau ariannol fodloni holl ofynion y Cod Moeseg. Yn benodol, mae'n rhaid dangos:

- y bydd yn gwella'n sylweddol y budd hirdymor i'r cyhoedd a fydd yn deillio o weddill y casgliad
- nad yw er mwyn cynhyrchu incwm yn y tymor byr (ee i ddileu diffyg yn y gyllideb)
- mai hwn yw'r unig ateb, wedi i ffynonellau ariannol eraill gael eu hystyried yn fanwl
- yr ymgynghorwyd yn eang ymlaen llaw gyda chyrrff y sector
- bod yr eitem dan sylw y tu allan i gasgliad craidd yr amgueddfa yn unol â'r diffiniad yn y polisi datblygu casgliadau.

Yn achos pob eitem a waredir, rhaid defnyddio'r arian a dderbynnir yn llwyr ac yn uniongyrchol er budd casgliad yr amgueddfa. Rhaid defnyddio'r arian a dderbynnir ar gyfer cynaliadwyedd, defnydd a datblygiad hirdymor y casgliad yn unig a chael ei ddyrannu i weithgareddau sy'n cyd-fynd â gofynion y safon Achredu.

Yn achos pob eitem a waredir, mae'n hanfodol ceisio barn y rhanddeiliaid (megis rhoddwyr, ymchwilwyr, cymunedau lleol a chymunedau y tarddoddy deunydd ohonynt ac eraill y mae'r amgueddfa'n eu gwasanaethu) sydd â diddordeb penodol yn y bwriad i waredu.

### Rôl y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Cyrff sy'n Asesu ar gyfer Achrediad (Cyrff Asesu)

Dylai amgueddfeydd sy'n mynd ar drywydd gwaredu am resymau ariannol gysylltu, yn y lle cyntaf, â'r Corff Asesu perthnasol (Gweler Atodiad 1 y Pecyn Cymorth Gwaredu) a'r Gymdeithas Amgueddfeydd drwy ddefnyddio'r ffurflen cyswllt cyntaf. Drwy ddefnyddio'r fformat hwn, gellir sicrhau y bydd y ddau gorff yn derbyn gwybodaeth gyson. Ceir crynodeb isod o'r modd y bydd y ddau gorff yn cynghori ynghylch gwaredu eitemau am resymau ariannol ac yn penderfynu a yw'r camau arfaethedig yn bodloni gofynion y Cod Moeseg a'r safon Achredu.

Oherwydd bod yr arfer o waredu am resymau ariannol yn gallu bod yn gymhleth ac yn debygol o fod yn destun dadleuol, bydd y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Asesu yn ymgynghori â'i gilydd os yw'r achosion yn arwyddocaol neu'n gallu arwain at osod cynsail.

### Y Gymdeithas Amgueddfeydd:

Mae'r Cod Moeseg yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â chyrff y sector ynghylch gwaredu am resymau ariannol ac, yn unol â hynny, mae'r Gymdeithas Amgueddfeydd yn disgwyl i amgueddfeydd geisio cyngor ffurfiol gan eu Pwyllgor Moeseg ynghylch unrhyw fwrriad i waredu eitem am resymau ariannol. Y Pwyllgor Moeseg yw'r corff allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau i'r Gymdeithas Amgueddfeydd yn y maes hwn oymarfer. Ar ôl ymateb i'r ffurflen cyswllt cyntaf ac ar ôl derbyn yr adroddiad cydymffurfio dilynol, bydd y Pwyllgor Moeseg yn cynghori a yw'r gwerthiant arfaethedig, yn ei dyb ef, yn cyd-fynd â'r Cod Moeseg.

Sylwch, os gwelwch yn dda, fod y Gymdeithas Amgueddfeydd yn cloriannu'n ofalus unrhyw fwrriad i waredu am resymau ariannol a'i bod yn debygol o gymryd misoedd i roi barn derfynol, yn enwedig gan fod angen, yn aml iawn, trafod y bwriad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg. Yn ogystal ag ystyried y budd cyffredinol i'r cyhoedd yn sgil y bwriad i waredu, gallai'r Pwyllgor Moeseg godi pwyntiau manwl am ofynion y Cod Moeseg.

Yn dilyn cyngor a chyfarwyddyd, os nad yw gofynion y Cod Moeseg yn cael eu bodloni a bod amgueddfa'n bwrw ymlaen â'r gwerthiant, gallai hynny arwain at gamau disgyblu gan y Gymdeithas Amgueddfeydd.

### Cyrff sy'n Asesu Amgueddfeydd ar gyfer Achrediad (Cyrff Asesu)

Caiff y Cynllun Achredu ei arolygu gan y Pwyllgor Achredu a'r paneli Achredu, sy'n is-grwpiau o'r pwyllgor sy'n cyfarfod oddeutu chwe gwaith y flwyddyn.

Mae'n bosib i amgueddfeydd Achrededig sy'n ystyried gwaredu am resymau ariannol ofyn am gyngor gan y Corff Asesu perthnasol. Rhoddir cyngor ar sail gwybodaeth a ddarperir yn y ffurflen cyswllt cyntaf a'r adroddiad cydymffurfio. Dylai'r amgueddfa ofyn am gyngor i sicrhau bod y bwriad yn cyd-fynd â'i bolisi datblygu casgliadau sy'n cydymffurfio â'r safon Achredu.

Sylwch, os gwelwch yn dda, fod y Gymdeithas Amgueddfeydd yn cloriannu'n ofalus unrhyw fwrriad i waredu am resymau ariannol a'i bod yn debygol o gymryd misoedd i roi cyfarwyddyd, yn enwedig mewn achosion lle gallai cynsail fod wedi'i gosod a bod yr achos wedi'i gyfeirio at y panel Achredu.

Os yw'r bwriad i werthu yn debygol o ffurfio cynsail i'r cynllun Achredu, bydd y corff asesu yn llunio adroddiad ac argymhelliad i'r panel Achredu cynharaf, cyn i'r gwerthiant ddigwydd. Os na fydd cynsail yn cael ei gosod, yna bydd y Corff Asesu perthnasol yn ymdrin â'r peth yn y ffordd arferol, gyda'r Corff Asesu yn rhoi cyfarwyddyd ac yn diweddar'u'r panel heb ofyn i'r panel am farn.

Mewn achosion lle bydd cynsail yn cael ei gosod, bydd y panel yn ystyried yr asesiad a'r argymhelliad, gan ganolbwyntio ar weld a yw'r bwriad yn debygol o gydymffurfio â gofynion y safon Achredu. Gallai'r canlyniad fod fel a ganlyn:

- mae'r bwriad yn cydymffurfio â'r safon Achredu
- mae'r bwriad yn cydymffurfio'n fras, ond dylid ei ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llwyr; neu
- nid yw'r bwriad yn cydymffurfio â'r safon a dylid ei ail-ystyried.

Bydd y panel:

- yn rhoi cyfarwyddyd clir, os oes raid, ar y modd y dylid diwygio'r broses i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r safon Achredu
- yn esbonio'n glir beth yw statws Achrededig yr amgueddfa, a'r statws achrededig tebygol ar ôl gwerthu am resymau ariannol
- yn cyfarwyddo'r Corff Asesu perthnasol i fonitro gweithrediad y broses waredu.

Unwaith y bydd gwerthiant wedi'i gwblhau a'r adroddiad terfynol wedi dod i law, bydd y Corff Asesu yn darparu ail asesiad ac argymhelliad i'r panel Achredu cyntaf a fydd ar gael. Bydd yr asesiad hwn yn amlinellu'r broses a gynhaliwyd ers cyflwyno'r canllawiau cyntaf (naill ai gan y panel neu'r Corff Asesu). Gallai'r argymhelliad a'r canlyniad fod fel a ganlyn:

- Achrediad llawn (mae'r gwaredu'n cydymffurfio â'r safon)
- Achrediad dros dro (Mae'r gwaredu'n cydymffurfio â'r safon ond mae gwelliannau wedi'u hadnabod i sicrhau cydymffurfio yn y tymor hir); neu
- Dileu (nid oedd y gwaredu'n cydymffurfio â'r safon).

### Canlyniad diffyg cydymffurfio

Yn achos dileu oherwydd nad oedd gwerthiant am resymau ariannol yn cydymffurfio â'r safon, bydd y corff llywodraethu/amgueddfa hefyd yn cael eu heithrio rhag gymryd rhan yn y Cynllun Achredu am gyfnod o bum mlynedd.

## Y broses ar gyfer gwaredu am resymau ariannol

Oherwydd bod gwerthu am resymau ariannol, yn ei hanfod, yn gallu bod yn gymhleth ac yn ddadleuol, mae angen i'r amgueddfeydd sy'n ystyried gweithredu yn y modd hwn ymgymryd â phroses fanwl gywir ar gyfer gwneud penderfyniad a rhoi ystyriaeth i amrywiaeth o ffactorau a sylwadau. Mae'r broses y mae angen ei chwblhau wedi'i rhannu i bum cam:

Cam 1: Asesu a phenderfynu mewn egwyddor

Cam 2: Cynllunio ac ymchwilio

Cam 3: Ymgynghori, cael cyngor a phenderfynu'n derfynol

Cam 4: Y gwerthiant

Cam 5: Ar ôl gwerthu a chadw cofnodion

Dylai'r gwaith sy'n ofynnol ar bob cam o'r broses gyfateb i werth ariannol a diwylliannol yr eitem sydd dan ystyriaeth i'w gwaredu drwy werthiant.

Ceir pedair dogfen allweddol y mae'n rhaid eu cwblhau yn ystod y broses, sef:

- adolygu proses
- Ffurflen cyswllt cyntaf
- Adroddiad cydymffurfio
- Adroddiad terfynol

Mae gwybodaeth bellach am bob un o'r dogfennau hyn yn yr adran hon a cheir crynodeb yn rhestr termau'r Pecyn Cymorth Gwaredu.

**Ffigur 1. Awgrym o broses i'w dilyn ar gyfer gwerthu am resymau ariannol**

### Cam 1: Asesu a phenderfynu mewn egwyddor

Cynnal adolygiad o'r casgliadau

Cydymffurfio â'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau

Dechrau rhoi'r Adroddiad Adolygu Proses at ei gilydd

Corff Llywodraethu: cytundeb mewn egwyddor i ymchwilio i'r gwerthiant

Dechrau ymgynghori â chyrrff y sector a chyflwyno ffurflen cyswllt cyntaf i'r Gymdeithas Amgueddfeydd ac i'r Corff Asesu

Myfyrio, a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen

Ar ôl myfyrio, diweddu'r broses

Ar ôl myfyrio, bwrw ymlaen i gam 2

### Cam 2: Cynllunio ac ymchwilio

Ymchwilio i eitemau ar gyfer anawsterau annisgwyl

Ymchwilio i'r teitl: yr hawl i werthu

Rhoi blaenoriaeth i gadw'r eitemau yn y maes cyhoeddus

Cynllunio i glustnodi'r arian a ddaw o'r gwerthiant

Myfyrio a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen

Ar ôl myfyrio, diweddu'r broses

Ar ôl myfyrio, bwrw ymlaen i gam 3

### Cam 3: Ymgynghori, cael cyngor a phenderfynu

Ymgynghori â rhanddeiliaid, amgueddfeydd a'r cyhoedd

Cael cyngor proffesiynol ynghylch gwerth diwylliannol ac ariannol

Cael cyngor ynghylch amseriad y gwerthiant

Cael cyngor llawn gan y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Asesu drwy gyflwyno adroddiad Cydymffurfio

Myfyrio a gwneud penderfyniad terfynol

Ar ôl myfyrio, diweddu'r broses

Ar ôl myfyrio, penderfynu parhau: Sicrhau awdurdod datganedig y corff llywodraethu a bwrw ymlaen i gam 4

### Cam 4: Y gwerthiant

Cynnig i amgueddfeydd

Agwedd broffesiynol tuag at werthu

Gwerthu ar y farchnad agored

### Cam 5: Ar ôl gwerthu a chadw cofnodion

Cadw cofnodion llawn

Cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Gymdeithas Amgueddfeydd ac i'r Corff Asesu

## Amserlen ar gyfer ystyried ac ymgymryd â gwaredu am resymau ariannol

Drwy gydol y broses, bydd yn ofynnol i amgueddfeydd ymchwilio a chasglu gwybodaeth benodol; ymgynghori gyda nifer o gyrff a rhanddeiliaid ac ystyried eu barn; gwneud nifer o benderfyniadau a'u cofnodi. Bydd gweithredu yn y modd hwn, o ganlyniad, yn cymryd amser; fodd bynnag, bydd ymgymryd â'r gwaith hwn yn dangos i rhanddeiliaid bod sefydliad wedi ymgymryd â'r diwydrwydd dyladwy angenrheidiol i wneud y penderfyniadau hyn.

Bydd angen o leiaf chwe mis, a thros flwyddyn ambell dro, i ymgymryd â phedwar cam cyntaf y broses sy'n arwain at werthu eitem.

## Cam 1: Aseu a phenderfynu mewn egwyddor

### 1.1. Cynnal adolygiad o'r casgliadau

#### 1.1.1.

Cyn gwaredu, dylid ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r casgliadau. Dylai'r adolygiad adnabod eitemau y gellid eu gwaredu. I gael cyfarwyddyd ar gynnal adolygiad o gasgliadau, gweler: [www.museumsassociation.org/collections](http://www.museumsassociation.org/collections)

#### 1.2. Cydymffurfio â phrosesau i wneud penderfyniadau

**1.2.1.** Trwy gydol y broses o waredu, mae'n rhaid glynu wrth egwyddorion cyffredinol trefn lywodraethu dda: gweler Pecyn Cymorth Gwaredu, Atodiad 3.

**1.2.2.** Rhaid parchu gweithdrefnau mewnol a glynu wrthynt er mwyn sicrhau trywydd archwilio pendant. Dylid cynnal cyfarfodydd, sy'n cael eu cofnodi'n briodol, i gydymffurfio â chyfansoddiad a gweithdrefnau mewnol y sefydliad, a dylid cynnwys y staff a'r corff llywodraethu yn y cyfarfodydd hynny.

**1.2.3.** Yn gynnar yn y broses, dylai'r corff llywodraethu gofnodi cytundeb mewn egwyddor i ymchwilio i werthiant, fel ag y dylai mewn perthynas ag unrhyw raglen o waredu.

**1.2.4.** Corff llywodraethu'r amgueddfa sy'n gyfrifol am benderfyniadau i waredu eitem. Mae'n gweithredu ar gyngor staff curadurol proffesiynol, os oes rhai, nid ar gyngor curadur y casgliad sy'n gweithredu ar ei ben ei hun. Dylai'r safonau uchaf o arbenigedd oleuo unrhyw benderfyniad i waredu gan roi ystyriaeth i'r holl amgylchiadau cyfreithiol a'r amgylchiadau eraill a ddaw yn eu sgil.

**1.2.5.** Mae cynllunio ac ymgynghori'n arbennig o bwysig er mwyn gwarchod enw da'r amgueddfa. Bydd angen i amgueddfeydd ddangos fod gwaredu yn rhan o'r gwaith o reoli casgliadau mewn modd cyfrifol. Rhaid cymryd gofal mawr i ystyried unrhyw oblygiadau cyfreithiol a moesegol a ragdybir yn sgil y gwerthiant. Bydd yn bwysig hefyd ymgynghori'n gynnar ac yn briodol gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid (gweler cam 3), ynghyd â chasglu gwybodaeth ddigonol i ddelio gydag unrhyw ymholiadau.

**1.3.** Dechrau rhoi'r adroddiad adolygu proses at ei gilydd

**1.3.1.** Mae'n arfer gorau cael un ffeil i gofnodi'r holl wybodaeth a'r penderfyniadau allweddol ac i ddiweddarau'r ffeil drwy gydol y broses waredu. Cyfeirir at hyn yn y canllawiau hyn fel yr adroddiad adolygu proses. Er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder, dylid dechrau paratoi'r adroddiad adolygu proses yn fuan iawn yn y broses.

**1.3.2.** Bydd paratoi'r adroddiad adolygu proses yn ei gwneud yn bosib cynhyrchu gwybodaeth ar wahanol ffurfiau ar gyfer: anghenion rheoli mewnol, proses llunio penderfyniadau'r corff llywodraethu, gofyn am gyngor gan eraill (ee y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Aseu), ac i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i'r cyfryngau.

**1.3.3.** Wrth i broses y gwerthiant fynd rhagddi, bydd angen diweddarau'r adroddiad adolygu proses. Er enghraifft:

- os caiff nifer a natur yr eitemau a ddetholwyd i'w gwaredu drwy werthiant eu newid ar ôl trafod ymhellach, dylid cofnodi'r newid hwnnw
- os oes angen ymchwilio ymhellach i'r eitemau a ddetholwyd i'w gwaredu
- os oes angen cadarnhau fod yr adolygiad o'r casgliadau a'r adroddiadau i'r corff llywodraethu yn cyfiawnhau'n llwyr pam fod y gwaredu o fudd hirdymor i'r cyhoedd
- a yw'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r arian yn dilyn y gwerthiant yn bodloni'r canllawiau moesegol.

**1.4.** Corff llywodraethu: cytundeb mewn egwyddor i ymchwilio i'r gwerthiant

**1.4.1.** Dylai'r corff llywodraethu gofnodi ei benderfyniad i ymchwilio i'r gwerthiant. Dylai adroddiad sy'n cynnwys cyngor proffesiynol oleuo ei benderfyniad, gan ddangos bod yr amgueddfa'n gweithredu er budd y cyhoedd yn y tymor hir. Gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn eto yn yr adroddiad adolygu proses.

**1.4.2.** Dylai'r adroddiad i'r corff llywodraethu:

- Gyfeirio at y broses adolygu casgliadau (a fydd yn helpu i ateb rhai o'r pwyntiau a ganlyn)
- Nodi manylion gofynion y Cynllun Achredu a Chod Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd, sef:
  - y bydd y gwerthiant yn gwella'n sylweddol y budd hirdymor i'r cyhoedd a fydd yn deillio o weddill y casgliad
  - nad yw er mwyn cynhyrchu refeniw yn y tymor byr (ee i ddileu diffyg yn y gyllideb)
  - mai hwn yw'r unig ateb, ar ôl i ffynonellau ariannol eraill gael eu hystyried yn fanwl
  - yr ymgynghorwyd yn eang ymlaen llaw gyda chyrrff y sector
  - bod yr eitem(au) dan sylw y tu allan i gasgliad craidd yr amgueddfa yn unol â'r diffiniad yn y polisi datblygu casgliadau.

- Nodi'n benodol nifer a natur yr eitemau sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu gwaredu. Mae hyn yn gofyn am ddisgrifiad o bob eitem, ac a oes mwy nag un ohonynt. Mae angen datgan yn glir beth yw cyflwr yr eitem gan gofio, os caiff eitem ei gwerthu yn y pen draw, bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn ddyledus tuag at unrhyw brynwr yng nghyswllt y disgrifiad o'r eitem a'i chyflwr (Deddf Gwerthu Nwyddau 1979, adran 13 ac 14). Gellir gwerthu eitemau hyd yn oed os ydynt mewn cyflwr gwael, ond rhaid cydnabod eu diffygion mewn modd agored.
  - Esbonio pam yr ystyrir bod yr eitem y tu allan i gasgliad craidd yr amgueddfa (ceir diffiniad o gasgliad craidd yn rhestr termau'r Pecyn Cymorth Gwaredu).
  - Ymdrin â'r gofynion perthnasol yn y polisi datblygu gasgliadau ac, yn fwyaf arbennig, y cymalau sy'n ymwneud â datganiad o ddiben yr amgueddfa, a themâu a blaenoriaethau'r amgueddfa ar gyfer casglu a gwaredu yn y dyfodol.
  - Cynnwys datganiadau ynghylch:
    - sut y dewiswyd yr eitemau penodol ar gyfer eu gwerthu; a
    - pham na chafodd eitemau eraill eu dewis. Er enghraifft, bydd yn rhaid esbonio'n fanylach unrhyw benderfyniad i werthu eitemau uchel eu gwerth mewn perthynas â'r casgliad yn gyffredinol er mwyn dangos nad yw'r eitemau wedi'u dewis i'w gwerthu ar sail eu gwerth ariannol yn unig.
  - Codi'r pwynt y bydd yn rhaid i'r amgueddfa sicrhau bod ganddi'r teitl cyfreithiol i'r eitemau, gan nodi unrhyw oblygiadau cyfreithiol a ragdybir os gwerthir yr eitemau. Mae rhwymedigaethau cyfreithiol yn ddyledus tuag at unrhyw brynwr i drosglwyddo'r teitl cyfreithiol (Deddf Gwerthu Nwyddau 1979, adran 12).
  - Esbonio sut y bydd gwaredu o fudd i'r cyhoedd yn y tymor hir ynghyd â nodiadau am unrhyw oblygiadau moesegol a ragdybir wrth werthu. Mae'n rhaid i hyn gynnwys ystyriaeth o'r canlynol:
    - y dystiolaeth ynghylch pam y caffaelwyd pob eitem yn y lle cyntaf
    - y cyfnod y bu'r eitemau a ddetholwyd yn cael eu harddangos i'r cyhoedd yn yr amgueddfa neu mewn man arall, neu am ba hyd y cawsant eu defnyddio ar gyfer gwaith ymchwil neu weithgarwch arall
    - effaith gwaredu ar weddill y casgliad
    - polisiâu casglu amgueddfeydd a sefydliadau eraill sy'n casglu eitemau o'r un meysydd neu feysydd pwnc, neu rai perthynol
    - unrhyw gyngor a gafwyd
    - gwybodaeth ynghylch canlyniadau unrhyw ymgynghori sydd wedi'i gynnal gyda rhanddeiliaid megis rhoddwyr, ymchwilyr, staff curadurol, cyrff llywodraethu'r amgueddfeydd a chymunedau lleol a chymunedau y tarddod y deunydd ohonynt, ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a wnaed yng ngoleuni'r ymgynghori hwnnw (gweler cam 3)
    - cynlluniau yng nghyswllt ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol, yn enwedig o ran gwerth diwylliannol eitem a dddordeb y cyhoedd (gweler cam 3)
    - cynlluniau i gael cyngor proffesiynol am werth diwylliannol eitem, ei gwerth ariannol ac amseriad a dull ei gwerthu (gweler cam 3)
    - a fyddai'r eitem yn cymryd ei lle'n well, yn cael ei defnyddio'n ehangach, gyda gwell mynediad ati, fel rhan o gasgliad amgueddfa arall
    - manylion y rhesymau dros y bwriad i werthu yn hytrach na throsglwyddo'r eitem yn ddi-dâl i amgueddfa arall
    - a yw eitemau cyffelyb yn y casgliad (megis eitemau sydd wedi'u dyblygu) wedi cael eu trosglwyddo i amgueddfeydd eraill, neu yn y broses o gael eu trosglwyddo
    - cynlluniau mewn perthynas â gwaredu deunydd arall tebyg
  - sut y rhoddir blaenoriaeth i gadw'r eitem yn y maes cyhoeddus.
  - Cytuno i geisio cyngor ffurfiol gan y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Asesu a dechrau ymgynghori gyda chyrff y sector (gweler cam 1.5).
- 1.4.3.** Bydd yr adroddiad i'r corff llywodraethu yn ddogfen gyhoeddus yn aml, felly mae'n rhaid rhoi sylw arbennig ar gyfleu'r bwriad mewn modd sy'n diogelu enw da'r amgueddfa.
- 1.5.** Dechrau ymgynghori â chyrff y sector
- 1.5.1.** Caiff amgueddfeydd eu cynghori i geisio cyngor mor fuan ag y bo modd. Fan bellaf, dylai hynny ddigwydd cyn gynted ag y bo'r corff llywodraethu wedi cytuno mewn egwyddor i ymchwilio i'r gwerthiant.
- 1.5.2.** Os oes modd canfod y gwerthiant fel un sy'n seiliedig ar resymau ariannol, mae'n rhaid gofyn am farn y Cyrff Asesu perthnasol a'r Gymdeithas Amgueddfeydd ar yr adeg hon drwy gwblhau'r ffurflen cyswllt cyntaf. Gall y naill gorff neu'r llall ddarparu'r ffurflen.
- 1.5.3.** Ar ôl cwblhau'r ffurflen cyswllt cyntaf, bydd yr amgueddfa'n cael ymateb gan y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Asesu naill ai:
- i gadarnhau, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, bod y bwriadau i werthu yn bodloni gofynion y Cod Moeseg a'r safon Achredu; neu
- i gadarnhau y bydd angen gwybodaeth bellach ar ffurf adroddiad cydymffurfio yn nes ymlaen er mwyn gallu barnu a yw'r gwerthiant arfaethedig yn bodloni gofynion y Cod Moeseg a'r safon Achredu.
- 1.5.4.** Os gofynnir am hynny, dylai amgueddfeydd gadarnhau y bydd adroddiad cydymffurfio yn cael ei gyflenwi yn nes ymlaen (gweler cam 3.4) i alluogi'r broses o ddarparu rhagor o gyngor o ran cydymffurfio â'r safon Achredu a'r Cod Moeseg.
- 1.6.** Myfyrio a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen
- 1.6.1.** Ystyried cyngor y Corff Asesu, y Gymdeithas Amgueddfeydd ac unrhyw un arall y buwyd yn ymgynghori â hwy yn barod, a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen i gam 2.

## Cam 2: Cynllunio ac ymchwilio

**2.1.** Ymchwilio i eitemau ar gyfer anawsterau annisgwyl

**2.1.1.** Ystyrir bod rhai eitemau yn deilwng o warchodaeth arbennig oherwydd y cânt eu hystyried yn eitemau dihafal ar sail eu diddordeb cenedlaethol, gwyddonol, hanesyddol neu gelfyddydol. Mae sylfaen gyfreithiol i ddihafaledd wrth asesu gwrthrychau ar gyfer Derbyn yn Lle Treth (A 230 Deddf Treth Etifeddiant, 1980), eithriad amodol, gwerthiant drwy gytundeb preifat ac, ers Gorffennaf 2012, y Cynllun Rhoddion Diwylliannol. Mae'n arfer da, felly, cadarnhau nad yw'r eitem a ddewiswyd i'w gwaredu yn eitem dihafal, a gellir asesu hynny drwy ddefnyddio'r cwestiynau a ganlyn (gweler adran 11.23 o [www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/conditionalexemption.pdf](http://www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/conditionalexemption.pdf) i gael rhagor o wybodaeth):

- A oes gan y gwrthrych berthynas arbennig o glòs gyda'n hanes a'n bywyd cenedlaethol?
- A yw'r gwrthrych o ddiddordeb celfyddydol neu gelf-hanesyddol neilltuoel?
- A yw'r gwrthrych o bwys arbennig ar gyfer astudio ffurf benodol o gelf, dysg neu hanes?
- A oes gan y gwrthrych berthynas arbennig o glòs gyda lleoliad hanesyddol penodol?

**2.1.2.** Os ystyrir bod yr eitem yn ddihafal, dylid ei throsglwyddo neu'i gwerthu i amgueddfa arall yn y DU, er mwyn ei chadw o fewn y maes cyhoeddus ac yn y DU.

**2.1.3.** Dylai amgueddfeydd geisio cyngor pellach ac ymgymryd â rhagor o waith ymchwil pan nad yw hanes manwl perchenogaeth eitem yn wybyddus. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddisgrifio eitem i sicrhau bod y prynwr yn ymwybodol o unrhyw broblemau yng nghyswllt ei tharddiad. Yn fwyaf arbennig, dylai amgueddfeydd roi sylw i dri maes penodol o bryder:

**A. Deunydd anghyfreithlon**  
Dylid gwneud ymdrech resymol i ymchwilio i darddiad yr eitem. Os oes perygl y gallai'r eitem fod yn anghyfreithlon, dylid ymgynghori ag arbenigwyr yn y maes perthnasol a chwilio drwy gronfeydd data electronig perthnasol megis y Gofrestr Celf Goll.

**B. Eitemau ffug a ffugiadau**  
Ni ddylid gwerthu eitem heb gynnal rhagor o ymchwil os daw'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith i gadarnhau dilysrwydd yr eitem. Os canfyddir bod eitem yn ffug neu'n ffugiad:

- Rhaid datgelu'r ffaith hon i'r prynwr er mwyn osgoi atebolrwydd

- Dylai'r amgueddfa ymdrechu i'r eithaf er mwyn sicrhau nad oes perygl y gellid cyflwyno'r eitem fel un dilys drwy, er enghraifft a phan yn briodol, gofrestru'r eitem gyda'r Gofrestr Celf Goll.

### C. Eitemau nas cydnabuwyd eu gwerth

Dylai amgueddfeydd osgoi gwerthu ar frys pan fo'n bosib y gallai ymchwil bellach ddatgelu fod yr eitem yn llawer mwy gwerthfawr, o safbwynt ariannol neu ddiwylliannol, nag y tybiwyd yn wreiddiol.

**2.1.4.** Dylai'r gwaith ymchwil fod yn gymesur â gwerth diwylliannol tybiedig yr eitem. Bydd angen bod yn fwy gofalus, o bosib, pan wyddys bod eitem yn tarddu o wlad arall a phan fo perygl y gallai'r wlad y tarddodd yr eitem ohoni ddymuno ei hawlio yn ôl i'r wlad honno.

### 2.2. Ymchwilio i'r teitl: yr hawl i werthu

**2.2.1.** Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu feddu ar deitl cyfreithiol yr eitem.

**2.2.2.** Mae angen i'r materion a ganlyn gael eu hystyried a'u cofnodi yn yr adroddiad adolygu proses:

- A ellir sefydlu, trwy gyfeirio at gofnodion derbynodi a chofnodion eraill, fod yr eitem yn eiddo i'r sefydliad? Mae nifer o ffyrdd y gall amgueddfa eu defnyddio i sefydlu perchenogaeth. Er enghraifft, Gweithred Roddi neu lythyr neu nodyn gan y rhoddwr; llythyr gan ysgutor neu weinyddwr pan fo eitemau wedi'u gadael i amgueddfa mewn Ewyllys; copi o'r Ewyllys ei hun; neu dderbynneb wedi'i hysgrifennu allan gan staff yr amgueddfa.

- A oes unrhyw gyfyngiadau ar yr eitemau sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu gwerthu? Rhaid ystyried unrhyw gytundebau gyda rhoddwyr. Er enghraifft, bydd angen ystyried a oes cyfyngiad:

o oherwydd bod yr eitem yn rhan o 'waddol parhaol' y sefydliad a'i bod felly'n anwahanadwy. Er enghraifft, mae'n bosib fod amodau ynghlwm wrth eitemau a oedd yn rhan o gasgliad gwreiddiol amgueddfa ac y gellir dod o hyd iddynt yn y ddogfen llywodraethu adeg ei sefydlu fel elusen; neu gallai'r amodau hyn fod wedi'u cytuno adeg y derbyniwyd yr eitem gan yr amgueddfa

o yn rhinwedd ymddiriedolaeth neu amod a wnaed gan roddwr naill ai o ran rhoi'r eitem yn wreiddiol neu oherwydd bod yr eitem wedi'i chaffael allan o arian a ddarparwyd ganddo/ganddi. Er y gallai rhoddwr, yn syml iawn, drosglwyddo eitem i amgueddfa heb unrhyw amodau, ni ellir tybio mai

felly yr oedd hi. Bydd yn rhaid, felly, archwilio'r cofnodion. Mae'n bosib y bydd rhoddwr yn ei gwneud yn ofynnol rhoi'r eitem i elusen arall oni fodlonir telerau'r rhodd, neu ddweud y dylid ei dychwelyd. Dan amgylchiadau o'r fath, fodd bynnag, gellid cysylltu â'r rhoddwr i weld a fyddai ef neu hi'n fodlon rhoi heibio unrhyw hawl i fyfnu bod y rhodd yn cael ei dychwelyd.

- A oes unrhyw gyfyngiadau statudol sy'n atal y gwerthiant? Gweler, er enghraifft, adran 3(4) o Ddeddf Amgueddfa Brydeinig 1963; adrannau 4 a 6 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992; ac adran 8(3) o Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol (yr Alban) 1985.

- O ran yr eitemau amgueddfaol o eiddo awdurdodau lleol, o dan ba ddarpariaethau statudol y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu gweithredu ei bŵer i werthu?

- A gaffaelwyd yr eitem gyda chymorth corff ariannu allanol ac, os felly, beth oedd telerau'r grant (os oedd rhai) ac a dynt yn golygu ad-dalu'r grant os gwerthir yr eitem?

- A oes unrhyw oblygiadau treth i'r gwerthiant?



**2.2.3.** Dylid ceisio cyngor os yw'r ateb i unrhyw un o'r materion hyn yn aneglur.

Sylwer: os yw amgueddfa wedi dod i feddu ar eitem drwy fenthyciad, rhaid peidio â'i gwerthu na'i gwaredu mewn unrhyw fodd arall oherwydd, yn ogystal â'r ystyriaethau moesegol, gallai hynny arwain at gyfrifoldeb i dalu iawndal, nid yn unig i'r perchennog, ond i'r prynwr hefyd.

**2.3.** Rhoi blaenoriaeth i gadw'r eitemau yn y maes cyhoeddus

**2.3.1.** Dylid rhoi blaenoriaeth i gadw'r eitemau yn y maes cyhoeddus. Rhaid gofyn i amgueddfeydd eraill fynegi diddordeb (ac, yn achos amgueddfeydd Achrededig, i amgueddfeydd Achrededig eraill yn arbennig). Dylai amgueddfeydd hysbysebu'r gwerthiant ar wasanaeth gwe-restr Canfod Gwrthrych y Gymdeithas Amgueddfeydd. Cyn gwerthu'r eitem yn gyhoeddus, rhaid rhoi digon o amser i amgueddfeydd ystyried a ydynt am gaffael yr eitem: bydd angen o leiaf deufis at y diben hwn.

**2.3.2.** Er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff eitem ei chadw yn y maes cyhoeddus, dylid ystyried ei gwerthu am bris is na'i gwerth i amgueddfa arall. Yn arferol, bydd corff llywodraethu amgueddfa yn ceisio cael y pris gorau am yr eitem er budd y casgliad sy'n weddill yn yr amgueddfa. Fodd bynnag, pan fo casgliad amgueddfaol yn cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth er budd y cyhoedd (ac felly bydd hi os yw, er enghraifft, wedi'i gofrestru fel elusen gyda'r Comisiynwyr Elusennau), nid oes raid ceisio'r pris gorau ar y farchnad am eitem os gwerthir yr eitem hon i amgueddfa arall gyda dibenion elusennol. Mae hyn oherwydd bod gwerthu am bris gostyngol yn fuddiol i'r cyhoedd drwy sicrhau bod yr eitem yn cael ei chadw yn y maes cyhoeddus.

**2.3.3.** Dylai corff llywodraethu amgueddfa sy'n ystyried gwerthu eitem am lai na phris y farchnad sicrhau:

- y gellir cyfiawnhau gweithredu yn y modd hwn ar sail hyrwyddo dibenion yr amgueddfa ei hun ac mai hyn sydd er y budd mwyaf i'r amgueddfa;
- bod aelodau'r corff llywodraethu wedi'u bodloni y byddai'r eitem yn aros yn y maes cyhoeddus ac ar gael i'r cyhoedd; a

- bod unrhyw gyfyngiadau a osodwyd ar yr eitem pan y'i rhoddwyd yn wreiddiol yn parhau unwaith y bydd y gwerthiant wedi'i gwblhau, neu fod unrhyw gyfyngiadau a roes yr elusen sy'n gwerthu, o ran defnyddio'r eitem, yn cael eu parchu.

Hefyd:

Gallai amgueddfeydd awdurdodau lleol ystyried trosglwyddo eitemau am lai na gwerth y farchnad i amgueddfeydd eraill. Er enghraifft, gellir cynnig gostyngiad sylweddol ym mhris y farchnad pan fo tir ac adeiladau, yn ogystal â chasgliad yr amgueddfa, yn cael eu trosglwyddo dan drefn trosglwyddo asedau cymunedol i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011.

Gallai amgylchiadau godi hefyd pan fyddai'n ddoeth gwerthu i amgueddfa neu sefydliad arall yn y maes cyhoeddus am lai na gwerth y farchnad, o ystyried yr angen i wella ansawdd gwasanaethau er budd y cyhoedd a chymunedau lleol.

Bydd angen i amgueddfeydd awdurdodau lleol ystyried a fyddai gwaredu unrhyw eitem yn cael effaith andwyol ar y grwpiau hynny sy'n meddu ar nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gallai cadw'r eitem yn y maes cyhoeddus leihau unrhyw effeithiau andwyol.

## 2.4. Cynllunio i glustnodi'r arian a ddaw o'r gwerthiant

**2.4.1.** Os caiff eitem ei gwerthu, dylai amgueddfeydd gyfyngu ar yr arian a ddaw o'r gwerthiant er mwyn sicrhau y caiff ei wario'n uniongyrchol er budd y casgliadau, ac at y diben hwnnw'n unig.

**2.4.2.** Rhaid gwario'r arian a ddaw o'r gwerthiant at ddibenion cynaliadwyedd, defnydd a datblygiad y casgliad yn y tymor hir. Ni chaniateir ei wario ar fesurau tymor byr, megis dileu diffyg yn y gyllideb.

**2.4.3.** Yn achos amgueddfeydd Achrededig mae hyn, fel arfer, yn golygu prynu rhagor o gaffaeliadau er, mewn rhai achosion eithriadol, gellid cyfiawnhau gwelliannau sy'n ymwneud â gofalu am y casgliadau er mwyn bodloni neu ragori ar ofynion Achredu yng nghyswllt risg o ddifrod i'r casgliadau, a'u dirywiad.

**2.4.4.** Yn achos amgueddfeydd Achrededig sy'n dymuno gwario'r arian ar ofalu am gasgliadau, dylid gofyn am gyngor gan y Corff Asesu perthnasol ynglŷn â defnyddio cronfeydd cyfyngedig o'r fath. Caiff y defnydd a wneir o'r cronfeydd hyn ei fonitro drwy'r broses Achredu.

**2.4.5.** Os yw'r amgueddfa'n bwriad creu ymddiriedolaeth gwaddol, yna unig bwrpas yr ymddiriedolaeth gwaddol fydd cynaliadwyedd, defnydd a datblygiad y casgliad yn y tymor hir. Bydd yn rhaid adlewyrchu'r canllawiau a ddarperir gan y Cod Moeseg a'r Polisi Datblygu Casgliadau a osodir allan uchod.

## 2.5. Ymchwilio i ffynonellau ariannu eraill

**2.5.1.** Dim ond os mai hyn yw'r unig ateb, ar ôl i ffynonellau ariannu eraill gael eu hystyried yn fanwl, y caniateir gwaredu am resymau ariannol. Mae ymchwiliad trylwyr i ffynonellau ariannu eraill yn debygol o gynnwys: ymddiriedolaethau a sefydliadau; prif noddwyr loteri a chyhoeddus; rhoddwyr preifat; ymelwa'n fasnachol ar asedion yr amgueddfa; awdurdodau lleol; a ffynonellau ariannu Ewropeaidd.

**2.6.** Myfyrio a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen

**2.6.1.** Ystyried y wybodaeth a gasglwyd a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen i gam 3 (dylid cynnwys y corff llywodraethu yn y penderfyniad os yw hynny'n briodol) Gwnewch yn siŵr fod yr adroddiad adolygu proses yn gyfredol.

## Cam 3: Ymgynghori, cael cyngor a phenderfynu'n derfynol

### 3.1. Ymgynghori â rhanddeiliaid, amgueddfeydd a'r cyhoedd

**3.1.1.** Gallai'r broses o ymgynghori a chael cyngor fod yn gyfle i ddysgu mwy am yr eitemau sydd wedi'u dethol i'w gwerthu, ond dylid ei hystyried hefyd fel cyfle arall i fyfyrrio. Dylai'r corff llywodraethu roi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau'r ymgynghori wrth wneud ei benderfyniad terfynol.

**3.1.2.** Dylid ymgymryd â'r broses hon mewn ffordd agored a thryloyw gyda gofal a sensitifrwydd tuag at ganfyddiadau'r cyhoedd.

**3.1.3.** Mae'n rhaid ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y gwerthiant. Mae'r rhain yn cynnwys: y rhoddwr, teulu'r rhoddwr, ymchwilywyr, cymunedau lleol a chymunedau y tarddodd yr eitemau ohonynt ac eraill sydd â diddordeb yn y gwerthiant arfaethedig. Pan yn briodol, dylid ceisio barn cydweithwyr a chyrrff y sector.

**3.1.4.** Dylid ymgynghori ag o leiaf dwy amgueddfa berthnasol arall mewn perthynas â'r eitemau yr ystyrir eu gwerthu. Dylid cynnwys trafodaeth am werth diwylliannol cynhenid yr eitemau ac a oes eitemau tebyg ar gael i'r cyhoedd.

**3.1.5.** Un dull o ymgynghori yw rhoi hysbyseb ar wasanaeth gwe-restr Canfod Gwrthrych y Gymdeithas Amgueddfeydd i gyhoeddi bod yr amgueddfa yn ystyried gwerthu eitem. Gall amgueddfeydd ddefnyddio hyn fel cyfle i brofi'r rhesymeg dros werthu ac i geisio rhagor o wybodaeth am yr eitemau a'u cyd-destun.

**3.1.6.** Dylid ymgynghori â chymunedau lleol ac aelodau eraill o'r cyhoedd sydd â diddordeb drwy roi hysbysrwydd i'r gwerthiant mewn modd sy'n briodol o dan yr amgylchiadau. Gallai hyn gynnwys arddangos yr eitem yn yr amgueddfa tra bo'r broses o ymgynghori â'r cyhoedd yn mynd rhagddi, gan roi gwybodaeth i'r cyfryngau a rhoi manylion y gwerthiant arfaethedig ar wefan yr amgueddfa. Dylai amgueddfeydd wneud ymdrech nid yn unig i gael sylwadau gan y cyhoedd ar agweddau o'r gwerthiant arfaethedig, ond hefyd i chwilio am wybodaeth am yr eitem sy'n cael ei hystyried.

**3.1.7.** Yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth ei Mawrhydi ar Ymgynghori, dylid ymgynghori â'r cyhoedd am o leiaf 12 wythnos cyn penderfynu'n derfynol ynghylch gwerthu, a dylai'r ymgynghori gynnwys manylion llawn bob eitem y bwriedir ei gwerthu.

**3.1.8.** Dylai amgueddfeydd wneud pob ymdrech i sicrhau fod y broses o waredu trwy werthu yn dryloyw ac wedi'i hystyried yn drylwyr, a dylent fyfyrrio ynghylch cynnwys yr ymateb a gafwyd i'w proses ymgynghori. Hefyd, gall amgueddfa o eiddo'r awdurdod lleol ddefnyddio'r broses ymgynghori i esbonio sut y gallai unrhyw warediad amharu ar bobl, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### 3.2. Cael cyngor proffesiynol ynghylch gwerth diwylliannol ac ariannol

**3.2.1.** Mae disgwyl i amgueddfeydd geisio cyngor yng nghyswllt:

- gwerth diwylliannol eitem
- gwerth ariannol eitem
- y modd y caiff eitem ei disgrifio.

**3.2.2.** Yn achos pob un o'r materion hyn, dylid cael cyngor gan o leiaf ddau arbenigwr annibynnol yn y maes. Os yw'n gymwys i wneud hynny, mae'n bosib i arbenigwr gynghori ynghylch mwy nag un mater. Gallai arbenigwyr annibynnol gynnwys academyddion, tai arwerthu, gwerthwyr, ac arbenigwyr mewn amgueddfeydd neu fannau eraill.

**3.2.3.** Dylai'r cyngor a geisir fod yn rhesymol ac yn gymesur i'r cyd-destun, gan ddibynnu ar werth diwylliannol ac ariannol yr eitem, a ph'un a yw'r cefndir yn gyflawn mewn perthynas â'i darddiad.

**3.2.4.** Dylid cadw'r cyngor fel rhan o gofnodion casgliadau'r amgueddfa.

### 3.3. Cael cyngor ynghylch amseriad y gwerthiant a'r effaith a gaiff

**3.3.1.** Dylid ceisio cyngor hefyd gan o leiaf ddau arbenigwr sy'n gweithio yn y farchnad berthnasol (megis tai arwerthu a gwerthwyr) yng nghyswllt amseru'r gwerthiant a chyflwr y farchnad, nid yn unig yn gyffredinol ond mewn perthynas â'r eitemau y bwriedir eu gwerthu. Os bwriedir gwerthu nifer o eitemau cyffelyb, neu nifer o weithiau gan yr un artist, dylai'r cyngor gynnwys p'un a ddylid gwerthu'n raddol dros gyfnod o amser ai peidio.

**3.3.2.** Os yw'r eitem wedi'i chaffael gan artist sy'n dal yn fyw, rhaid cael cyngor ynghylch effaith unrhyw werthiant ar y farchnad yng nghyswllt gwaith arall o eiddo'r artist, er mwyn ceisio sicrhau na cheir effaith andwyol ar fywoliaeth yr artist.

### 3.4. Cael cyngor llawn gan y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Asesu

**3.4.1.** Dylai'r amgueddfa fod mewn sefyllfa, erbyn hyn, i ddarparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Asesu fel y gallant hysbysu'n llawn a yw'r bwriad yn bodloni gofynion y Cod Moeseg a'r safon Achredu. Dylai amgueddfeydd gyflwyno'r wybodaeth hon ar ffurf adroddiad cydymffurfio y dylid ei seilio ar yr adroddiad adolygu proses y buont yn ei lunio ers dechrau'r broses.

**3.4.2.** Dylai'r adroddiad cydymffurfio ganolbwyntio ar y modd y bydd gwaredu am resymau ariannol o fudd i'r cyhoedd yn y tymor hir.

**3.4.3.** Dylai'r adroddiad cydymffurfio gynnwys:

- I ba raddau yr ystyrir bod yr amgylchiadau'n eithriadol
- I ba raddau, ac ym mha fodd, y bydd y gwerthiant yn gwella'n sylweddol y budd a gaiff y cyhoedd yn y tymor hir o'r casgliad sy'n weddill. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gynlluniau i brynu eitem neu eitemau newydd tuag at y casgliad parhaol, neu greu cronfa gwaddol i gynyddu cynaliadwyedd, defnydd a datblygiad y casgliad yn y tymor hir.

- Cynlluniau i hysbysu'r gwerthiant arfaethedig ymysg amgueddfeydd neu sefydliadau cyhoeddus eraill, gan gynnwys ffurfiau electronig o gyfathrebu megis gwasanaeth gwe-restr Canfod Gwrthrych y Gymdeithas Amgueddfeydd, a chyhoeddi mewn cylchgronau fel Museums Journal, am gyfnod o ddeufis fan lleiaf
- P'un a yw'r gwerthiant yn unig ateb ar ôl ymchwilio'n fanwl i ffynonellau eraill o gyllid. Sylwer: mae angen tystiolaeth fod amrywiaeth o opsiynau wedi'u harchwilio, heb fod pob un ohonynt yn ariannol. Mae angen i'r gwaith o archwilio ffynonellau eraill o gyllid fod yn gymesur i'r symiau o arian dan sylw.

**3.4.4.** Dylai'r adroddiad cydymffurfio gadarnhau:

- nad bwriad y gwerthiant yw creu refeniw yn y tymor byr
- bod yr amgueddfa wedi ymgynghori'n eang gyda chyrrff y sector
- bod yr eitem dan sylw y tu allan i gasgliad craidd sefydledig yr amgueddfa yn unol â'r diffiniad yn y polisi datblygu casgliadau cymeradwy.

**3.4.5.** Dylai'r adroddiad cydymffurfio ddatgan beth fydd yn digwydd i'r arian yn dilyn y gwerthiant, y bydd angen ei glustnodi os oes modd (gweler cam 2.4). Yn achos rhai amgueddfeydd o eiddo'r Awdurdod Lleol, mae'n bosibl na fydd modd clustnodi'r arian. Mewn achosion o'r fath, dylid mynegi'n glir pa ddefnydd a wneir o'r arian a'r arian a ddyrennir yn unol â hynny mewn modd sy'n cyd-fynd â'r safon Achredu a Chod Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd.

**3.4.6.** Bydd y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Corff Asesu perthnasol yn rhoi gwybod i'r amgueddfa i ba raddau y mae'n cydymffurfio â gofynion y Cod Moeseg a'r safon Achredu. Mae'r Gymdeithas Amgueddfeydd yn gwerthuso'n ofalus unrhyw fwrriad i waredu am resymau ariannol ac mae'n debygol o gymryd misoedd lawer i roi barn a chyfarwyddyd ar unrhyw fwrriadau o'r fath, yn enwedig gan fod angen, yn aml iawn, trafod y bwriad mewn cyfarfod o Bwyllgor Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd. Bydd y Corff Asesu'n llunio adroddiad i'w gyflwyno i'r panel Achredu nesaf i'w gynnal. Bydd y panel yn ystyried yr asesiad a'r argymhelliad, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion y safon Achredu. (Gweler tudalen 6.)

### **3.5. Myfyrio a gwneud penderfyniad terfynol: sicrhau awdurdod datganedig gan y corff llywodraethu**

**3.5.1.** Ar ôl ystyried yr holl ddogfennau perthnasol a'r cyngor proffesiynol y cyfeirir ato uchod, dylai'r corff llywodraethu fyfyrion a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r gwerthiant. Os penderfynir bwrw ymlaen, dylid cytuno'n ffurfiol i waredu'r eitem(au) am resymau ariannol. Dylid sicrhau bod yr adroddiad adolygu proses yn gyfredol.

## **Cam 4: Y gwerthiant**

### **4.1. Cynnig i amgueddfeydd**

**4.1.1** Dylid cyhoeddi pob eitem sydd i'w gwerthu i amgueddfeydd cyn ymgymryd â dull o weithredu a fydd yn debygol o olygu y bydd y gwrthrych yn gadael y maes cyhoeddus, ee gwerthu ar y farchnad agored drwy arwerthiant. Bydd cyhoeddiadau sy'n ymwneud â gwerthiant gan amgueddfeydd yn nodi nifer a natur y samplau neu'r gwrthrychau dan sylw, ac ar ba sail y caiff y deunydd ei drosglwyddo i sefydliad arall. Bydd cyhoeddiadau ar gyfer gwerthiant sy'n cydymffurfio â'r Cod Moeseg yn cael eu cynnwys ar wasanaeth Canfod Gwrthrych y Gymdeithas Amgueddfeydd, yn y Museums Journal ac mewn cylchgronau arbenigol eraill, pan yn briodol.

**4.1.2** Caniateir cyfnod o ddeufis o leiaf i fynegi diddordeb mewn caffael y deunydd. Mewn achosion lle bo'r eitem o bwys diwylliannol, argymhellir y dylid caniatáu cyfnod o chwe mis fan lleiaf.

**4.1.3** Pan fo amgueddfa'n fodlon ystyried trosglwyddo'n ddi-dâl neu werthu am bris sy'n is na chyfradd y farchnad i amgueddfa arall er mwyn cadw'r gwrthrych yn y maes cyhoeddus (gweler cam 2.3.1), dylai ddatgan y bwriad hwn wrth hysbysebu. Dylai'r amgueddfa ystyried yn ofalus unrhyw ddiddordeb y mae amgueddfeydd eraill yn ei ddangos o ran dymuniad i gaffael y gwrthrychau er mwyn sicrhau eu bod yn cysoni'r budd i'r cyhoedd gyda'r arian a wneir o'r gwerthiant, gyda'r budd ehangach i'r cyhoedd yn sgil cadw'r eitem yn y maes cyhoeddus.

**4.1.4** Os gwneir y cyhoeddiad gan amgueddfa Achrededig ac, ar ddiwedd y cyfnod hwn, na dderbynnir yr un mynegiant o ddiddordeb gan unrhyw amgueddfa Achrededig arall, caniateir cynnig yr eitem i amgueddfeydd neu sefydliadau eraill yn y maes cyhoeddus.

**4.1.5** Rhaid i aelodau'r corff llywodraethu na staff yr amgueddfa beidio â phrynu eitemau y mae'r amgueddfa yn eu gwaredu.

### **4.2. Mabwysiadu agwedd broffesiynol tuag at werthu**

**4.2.1** Unwaith y daw'n amlwg fod y gwerthiant o fudd hirdymor i'r cyhoedd ac nad oes yr un amgueddfa wedi gallu caffael yr eitem, dylid anelu at uchafu'r elw ariannol (yn amodol ar gynnig yr eitem i amgueddfa arall am werth is, gweler cam 2.3.1). Mae hynny'n golygu, fel arfer, gwerthu drwy arwerthiant ar y farchnad agored.

**4.2.2** Dylid ystyried materion megis amseriad yr arwerthiant a'i leoliad, yr arwerthwr a ddewisir a thelerau eu contract (ee p'un a yw hi'n bosibl negodi hepgor ffioedd).

**4.2.3** Gall amgueddfeydd, yn amodol ar y cyngor a gânt, ystyried gwerthu eitemau ar-lein ond, wrth wneud hynny, dylent ddewis y wefan arwerthu ar-lein yn ofalus er mwyn gwarchod eu henw da.

### **4.3. Gwerthu ar y farchnad agored**

**4.3** Ar ôl sicrhau bod holl ofynion y safon Achredu a'r Cod Moeseg wedi'u bodloni, dylid cadarnhau'r penderfyniad i werthu ac, os yn briodol, dylid gwerthu'r eitem(au).

## **Cam 5: Ar ôl gwerthu a chadw cofnodion**

### **5.1. Cadw cofnodion llawn**

**5.1.1.** Dylai'r broses o gofnodi'r gwerthiant fod yn dryloyw.

**5.1.2.** Dylid cwblhau'r adroddiad adolygu a dylid cadw cofnodion llawn o'r broses o drosglwyddo neu werthu, gan gynnwys disgrifiad manwl o'r eitem a drosglwyddir neu a werthir, yn unol â gweithdrefn SPECTRUM ar gyfer dad-dderbynodi a gwaredu. Dylai cofnodion ffotograffig gyd-fynd â'r rhain pan fo hynny'n ymarferol bosibl. Dylid gwneud trefniadau i sicrhau eu bod ar gael fel y gellir cyfeirio atynt yn y dyfodol.

**5.1.3.** Dylid cadw'r ffurflen sy'n cofnodi trosglwyddo'r teitl. Dylai gynnwys enw a manylion cyswllt y derbynnydd neu'r prynwr, a dylid ei chadw at y dyfodol.

**5.1.4.** Rhaid cymryd camau i sicrhau y cedwir yr adroddiad adolygu proses, a fydd yn cynnwys cofnod o'r broses o wneud penderfyniad, y cyngor proffesiynol a gafwyd a chofnodion y cyfarfodydd mewnol.

**5.2.** Cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Gymdeithas Amgueddfeydd ac i'r Corff Asesu

**5.2.1.** Darparu adroddiad terfynol i'r Gymdeithas Amgueddfeydd ac i'r Corff Asesu perthnasol gan nodi manylion y dull o werthu, y pris gwerthu a manylion y modd y dyrannwyd, neu a ddyrennir, yr arian o'r gwerthiant yn unol â'r cyfarwyddyd a osodir allan yn 2.4 uchod.

**5.2.2.** Yn achos amgueddfeydd Achrededig, caiff y wybodaeth hon ei defnyddio wrth lunio penderfyniadau ynghylch y graddau y mae'r amgueddfa'n cydymffurfio â'r safon Achredu ac a yw statws yr amgueddfa o fewn y cynllun wedi newid. Os yw amgueddfa yn dal i fod wedi'i Hachredu'n llawn neu dros dro, defnyddir y wybodaeth hon hefyd wrth fonitro'r amgueddfa yn y dyfodol.

Ceir rhestr termau, ffynonellau o wybodaeth bellach ac adnoddau yn y brif ddogfen Pecyn Cymorth Gwaredu. Gellir ei lawrlwytho ar: [www.museumsassociation.org](http://www.museumsassociation.org)